

**LLYFRGELL GENEDLAETHOL CYMRU**  
**TELERAU ARFEROL Y CYTUNDEB AR GYFER PRYNU NWDYDDAU A/NEU WASANAETHAU**

**1. DIFFINIADAU A DEHONGLIADAU**

(i) Yn yr Amodau hyn:

Ystyr "**Swyddog Awdurdodedig**" yw ein gweithiwr cyflogedig a awdurdodwyd gennym yn benodol i lofnodi ein Harcheb, y gellir cael cadarnhad o hyn oddi wrth ein Cyfarwyddwr Cyllid;

Ystyr "**Amodau**" yw'r amodau a'r telerau a nodir yn y ddogfen hon ac (oni bai bod y cyd-destun yn gofyn yn wahanol) mae'n cynnwys unrhyw amodau a thelerau arbennig a nodir ar yr Archeb;

Ystyr "**Gwybodaeth gyfrinachol**" yw gwybodaeth y byddai'i datgelu yn golygu torri ymddiriedaeth a fyddai'n agored i gyfraith, ac a bennwyd yn ysgrifenedig naill ai'n gyfrinachol gan y naill barti neu'r llall neu y dylid cael ei hystyried yn gyfrinachol (ym mha ffurf neu gyfrwng bynnag a pha un ai y'i datgelwyd ar lafar neu'n ysgrifenedig, ynghyd â phob atgynhyrchiad ym mha ffurf neu gyfrwng bynnag ac unrhyw ran neu rannau ohoni) gan gynnwys gwybodaeth o sensitifrwydd masnachol a gwybodaeth gyfrinachol sy'n ymwneud â busnes, materion, eiddo, asedau, arferion masnachu, cyfrinachau masnachol, Hawliau Eiddo Deallusol, medrau, personél, cwsmeriaid a chyflenwyr y naill barti neu'r llall a phob data personol a data personol sensitif (fel y'u diffinnir yn y Ddeddfwriaeth Diogelu Data);

Ystyr "**Cytundeb**" yw cytundeb prynu'r Nwyddau a/neu gyflenwi'r Gwasanaethau yn unol ag amod 2. Mae'r dogfennau sy'n ffurfio'r Cytundeb yn cynnwys yr Amodau ac unrhyw ddogfennau eraill y cyfeirir atynt yn yr Archeb.

Ystyr "**Gweithrediadau Adeiladu**" yw gweithrediadau fel y diffinnir yn y Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 fel y'i diwygiwyd;

Ystyr "**Deddfwriaeth Diogelu Data**" yw:

- i) Y Rheoliad (oni bai a hyd nes nad yw bellach yn uniongyrchol berthnasol yn y DU);
- ii) unrhyw gyfreithiau, rheoliadau ac is-ddeddfwriaeth sy'n gweithredu yn y DU o dan y Rheoliad (fel y'i diwygiwyd neu ei ddiweddarau o dro i dro);
- iii) unrhyw ddeddfwriaeth olynol i'r Rheoliad

Mae "**Rheoliad**" yn cyfeirio at Reoliad Cyffredinol Gwarchod Data yr UE (2016/679);

Ystyr "**Gofynion Cyflawni**" yw unrhyw gynhyrchion, deunyddiau a/neu eitemau a grëwyd neu a ddatblygwyd gennych chi i ni fel rhan neu mewn perthynas â'r Gwasanaethau;

Ystyr "**Rheoliadau GA**" yw Rheoliadau Gwybodaeth Amgylcheddol 2004 (SI 2004/3391) ynghyd ag unrhyw gyfarwyddyd a/neu godau ymarfer a gyflwynwyd gan y Comisiynydd Gwybodaeth neu adran berthnasol o'r llywodraeth mewn perthynas â deddfwriaeth o'r fath;

Ystyr "**DRhG**" yw Deddf Rhyddid Gwybodaeth 2000 ac unrhyw ddeddfwriaeth eilradd a luniwyd yn sgil y Ddeddf hon o bryd i'w gilydd;

Ystyr "**Nwyddau**" yw'r cynhyrchion, deunyddiau a/neu eitemau a ddisgrifir yn yr Archeb;

Ystyr "**Polisi Iechyd a Diogelwch**" yw ein polisi iechyd a diogelwch fel y'i darperir i chi wrth neu cyn llunio'r Cytundeb ac a ddarperir wedi hynny i chi o bryd i'w gilydd ac eithrio unrhyw gyfryw bolisi a ddarperir wedi hynny na ellir yn rhesymol ei gysoni i sicrhau y cydymffurfir â Chyfraith berthnasol o safbwynt iechyd a diogelwch;

Ystyr "**GID**" yw gwahoddiad i dendro neu gais am ddyfynbris neu ddogfen debyg a gyflwynwyd gennym ni mewn cysylltiad â'n bwriad i gaffael y Nwyddau a/neu Wasanaethau;

Yr un yw ystyr "**Gwybodaeth**" â'r hyn a nodir o dan gymal 84 o'r DRhG;

Ystyr "**Comisiynydd Gwybodaeth**" a "**Thribiwnlys Gwybodaeth**" yw'r hyn a nodir o dan Deddfwriaeth Diogelu Data.

Ystyr "**Hawliau ED**" yw unrhyw a'r holl hawliau eiddo deallusol sy'n deillio neu'n bod mewn unrhyw ran o'r byd yn cynnwys (a) dyfeisiadau, patentau, dyluniadau cofrestredig, enwau parth, nodau masnach (boed wedi eu cofrestru neu heb eu cofrestru), ceisiadau am unrhyw un o'r rhai blaenorol a'r hawl i wneud cais mewn unrhyw wlad yn y byd; (b) hawlfreintiau, hawliau o ran natur yr hawlfraint, hawliau moesol, hawliau dylunio a hawliau cronfa ddata; (c) enwau masnach a logos; (d) medrau a chyfrinachau masnach; ac (e) pob neu unrhyw hawl cyfwerth tebyg.

Ystyr "**Personél Allweddol**" yw'r personél a nodir yn yr Archeb;

Ystyr "**Polisiau Mandadol**" yw unrhyw un o'n polisiau a hysbysir i chi o bryd i'w gilydd.

Ystyr "**Archeb**" yw naill ai:

- (a) archeb brynu ysgrifenedig neu gais a gyflwynwyd gennym ni mewn perthynas â'r Nwyddau a/neu Wasanaethau; neu

(b) lythyr dyfarnu a gyflwynwyd gennym ni i chi yn dilyn proses dendro gystadleuol neu gais am ddyfynbris mewn perthynas â darparu'r Nwyddau a/neu Wasanaethau,

ac ym mhob achos yn cynnwys y Manylebau;

Ystyr "**Diwygiad Archeb**" yw diwygiad i'n Harcheb a gyflwynwyd gan Swyddog Awdurdodedig;

Ystyr "**Pecyn**" neu "**Pecynnu**" yw unrhyw fath o becynnu gan gynnwys bagiau, cesys, costreli, silindrau, drymiau, paledi, wagenni tanc a chistiau eraill.;

Ystyr "**Pris**" yw'r pris a nodir yn yr Archeb neu a gyfrifir yn unol â darparu'r Archeb;

Yr un fydd yr ystyr i "**Weithgarwch a Reoleiddir**" mewn perthynas â phlant ag a nodir yn Rhan 1 o Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac mewn perthynas ag oedolion hyglwyf yr un ystyr ag a nodir yn Rhan 2 o Atodlen 4 Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

Yr un fydd yr ystyr i "**Darparwr Gweithgarwch a Reoleiddir**" ag y nodir yn adran 6 o Ddeddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006;

Ystyr "**Cais am Wybodaeth**" yw cais am wybodaeth neu gais penodol o dan y Cod Ymarfer ar Fynediad at Wybodaeth Llywodraeth, DRhG neu Reoliadau GA;

Ystyr "**Gwasanaethau**" yw'r gwaith a'r gwasanaethau a ddisgrifir yn yr Archeb;

Ystyr "**Manylebau**" yw unrhyw fanylebau, gofynion, lefelau gwasanaethau a meini prawf perfformiad a gyflwynwyd gennym ni i chi (boed yn unol â GiD neu fel arall) neu a gyflwynwyd gennych chi (boed yn unol ag Ymateb i Dendr neu fel arall) ac y cytunwyd yn ysgrifenedig yn dilyn hynny gennym ni yn cynnwys unrhyw luniau, amserlenni, cynlluniau data neu wybodaeth arall yn ymwneud â'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau;

Ystyr "**Ymateb i Dendr**" yw eich cais neu ddogfennau a gyflwynir (os o gwbl) mewn ymateb i'n GiD;

Ystyr "**Ni**", "**Ninnau**" ac "**Ein**" yw Llyfrgell Genedlaethol Cymru neu unrhyw is-gwmni a berchnogir yn llwyr neu gysylltiedig a enwir ar yr Archeb;

Ystyr "**Diwrnod Gwaith**" yw dydd Llun i ddydd Gwener, ac eithrio unrhyw wyliau banc yng Nghymru a Lloger; ac

Ystyr "**Chi**" ac "**Eich**" yw'r unigolyn y cyfeirir yr archeb ato neu ati

- (ii) Os bydd unrhyw wrthdaro neu anghysondeb rhwng: (a) yr Amodau hyn; (b) unrhyw un o delerau'r Archeb; (c) y GiD; neu (d) yr Ymateb i'r Tendr, oni bai y nodir yn wahanol yn yr Archeb, blaenoriaethir fel a ganlyn: (i) yr Archeb, (ii) yr Amodau; (iii) y GiD; a'r (iv) Ymateb i'r Tendr.
- (iii) Dylid dehongli unrhyw gyfeiriad at "berson" fel un sy'n cynnwys unrhyw unigolyn, cwmni, corfforaeth, llywodraeth, gwlad neu asiantaeth o wlad neu unrhyw gyd-fenter, ymddriedolaeth, cymdeithas neu bartneriaeth (boed â phersonoliaeth gyfreithiol ar wahân ai peidio);
- (iv) Dehonglir unrhyw gyfeiriad yn yr Amodau hyn at ddeddf neu ddarpariaethau deddf neu'r ddarpariaeth honno boed honno ar ffurf ddiwygiedig, wedi'i hail-ddeddfu neu ei hestyn yn ystod yr amser perthnasol.
- (v) Mae'r penawdau yn yr Amodau hyn er cyfleustra'n unig ac nid ydynt yn effeithio ar eu dehongliad.

## **2. LLUNIO CYTUNDEB**

- (i) Yn ddarostyngedig i Amod 2(ii) isod, bydd dechrau cyflawni'r Archeb a/neu unrhyw dderbyniad goblygedig neu ymhlyg o'r Archeb gennych chi neu ddefnydd o rif yr Archeb mewn unrhyw gydnabyddiaeth o'r archeb yn dystiolaeth eich bod yn cytuno â'r Archeb a'i darpariaethau ac yn ddarostyngedig i'r Amodau hyn a bydd cytundeb yn cael ei lunio'r unol â hynny.
- (ii) Lle mae'r Archeb wedi ei chyflwyno gennym ni yn dilyn cwblhau proses dendro gystadleuol, tybir bod eich ymateb i'r tendr yn gynnig gennych chi i gyflwyno'r Nwyddau a/neu Wasanaethau i ni ar sail yr Amodau hyn a bydd cytundeb yn cael ei lunio gennym pan gyflwynir yr Archeb i chi.
- (iii) Yn amodol ar unrhyw amrywiad o dan amod 15, yr Amodau hyn yw'r unig amodau yr ydym yn fodlon eu defnyddio fel sail i'r cytundeb a byddant yn llywodraethu'r Cytundeb ac eithrio holl delerau ac amodau eraill.
- (iv) Ni fydd unrhyw delerau neu amodau a gymeradwyir, a ddarperir gyda neu a gynhwysir mewn unrhyw ddyfynbris, cydnabyddiaeth, Ymateb i Dendr, archeb a dderbynnir neu ddogfen debyg arall a ddarperir gennych chi, yn llunio rhan o'r Cytundeb ac rydych yn ildio unrhyw hawl a allai fod gennych fel arall i ddibynnu ar y cyfryw delerau ac amodau.
- (v) Lle mae'r Nwyddau a neu'r Gwasanaethau'n cynnwys Gweithrediadau Adeiladu bydd yr Amodau hyn yn weithredol fel y'u haddaswyd gan y telerau a amlinellir yn Atodiad 1.

## **3. CYFLENWI NWYDDAU**

- (i) Byddwch yn sicrhau y bydd y Nwyddau:
  - (a) yn cyfateb â'r Archeb, unrhyw ddisgrifiadau ynddi a'r Manylebau'n dilyn hynny;
  - (b) o ansawdd boddhaol (o fewn ystyr Deddf Gwerthu Nwyddau 1979 (fel y'i diwygiwyd) ac yn addas i unrhyw ddiben a nodir gennych chi, yn cynnwys mewn unrhyw Ymateb i Dendr neu a hysbyswyd i chi gennym ni, yn benodol (yn cynnwys mewn unrhyw GiD) neu drwy oblygiad, ac i'r perwyl hwn rydym yn dibynnu ar eich medr a'ch barn.
  - (c) heb unrhyw ddiffygion o ran dyluniad, deunyddiau a chreffft ac yn parhau felly am 12 mis ar ôl eu cyflenwi (neu am gyfnod arall a nodir yn benodol yn yr Archeb neu'r Manylebau): ac
  - (d) yn cydymffurfio â'r holl ofynion statudol a rheoleiddiol perthnasol yn ymwneud â gweithgynhyrchu, labelu, pecynnu, storio, trafod a chludo'r Nwyddau.
- (ii) Byddwch ar eich cost eich hun yn darparu unrhyw raglenni gweithgynhyrchu a chyflawni y bydd eu hangen arnom yn rhesymol gan ein hysbysu'n ysgrifenedig heb oedi os gallai neu os bydd unrhyw un o'r raglenni hyn ar ei hôl hi.
- (iii) Ni fyddwch yn gwrthod yn afresymol unrhyw gais gennym ni i archwilio a phrofi'r Nwyddau yn ystod y broses weithgynhyrchu, prosesu neu storio yn eich adeiladau cyn eu hanfon allan, a byddwch yn sicrhau pob cydweithrediad, cymorth, gwybodaeth a chyfleusterau sy'n rhesymol angenrheidiol ar gyfer archwilio a phrofi o'r fath.
- (iv) Os, yn dilyn archwilio neu brofi yr ydym yn ystyried nad yw'r Nwyddau'n cydymffurfio neu'n annhebygol o gydymffurfio ag unrhyw ofynion yn amod 3(i) uchod, byddwn yn eich hysbysu o fewn 10 diwrnod i'w harchwilio neu eu profi a byddwch yn mynd ati'n syth i gymryd camau cywiro angenrheidiol i sicrhau eu bod yn cydymffurfio.
- (v) Er unrhyw archwilio neu brofi o'r fath, byddwch yn gwbl gyfrifol am y Nwyddau ac ni fydd unrhyw archwiliad neu brawf yn lleihau neu'n effeithio ar eich dyletswyddau neu oblygiadau o dan y Cytundeb a bydd gennym hawl i gynnal archwiliadau a phroffion pellach ar ôl i chi gymryd unrhyw gamau cywiro.

#### **4. CLUDO NWYDDAU**

- (i) Byddwch yn sicrhau bod y Nwyddau wedi eu pecynnu a'u gwneud yn ddiogel er mwyn gallu cyrraedd eu cyrchfan mewn cyflwr da
- (ii) byddwch yn cludo'r Nwyddau:
  - (a) ar y dyddiad a nodir yn yr Archeb neu, os na nodir dyddiad o'r fath, o fewn 14 diwrnod i ddyddiad yr Archeb;
  - (b) yn ein safle yn Heol Penglais, Aberystwyth SY23 3BU neu leoliad arall fel y nodir yn yr Archeb neu fel y cyfarwyddir gennym ni cyn cludo (y "Lleoliad Cludo");
  - (c) yn ystod ein horiau busnes arferol neu fel y cyfarwyddir gennym ni.
- (iii) Bydd y broses o gludo'r Nwyddau'n cael ei chwblhau ar ôl gorffen dadlwytho'r Nwyddau yn y Lleoliad Cludo.
- (iv) Ni fyddwch yn cludo'r Nwyddau fesul sawl llwyth heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw. Lle cytunir bod y Nwyddau'n cael eu cludo fesul sawl llwyth, bydd yr Archeb yn cael ei thrin fel un Archeb ac nid nifer o Archebion.
- (v) Os byddwch chi neu eich cludwr yn cludo unrhyw Nwyddau ar yr amser anghywir neu i'r lle anghywir, yna mae'n bosibl y byddwn yn tynnu o'r pris unrhyw gostau o ganlyniad i hynny ar gyfer yswiriant dros dro, storio neu gludo. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw golled neu ddifrod i Nwyddau a gyflenwir yn anghywir.
- (vi) Bydd hawl gennym i wrthod unrhyw Nwyddau nad ydynt yn unol â'r Archeb ac ni thybir ein bod wedi derbyn unrhyw Nwyddau nes ein bod wedi cael amser rhesymol i'w harchwilio ar ôl eu cludo neu o fewn amser rhesymol ar ôl i unrhyw ddiffyg posibl yn y Nwyddau ddod i'r amlwg.

#### **5. CYFLENWI GWASANAETHAU**

- (i) O'r dyddiad a nodir yn yr Archeb a (lle y bo'n berthnasol) am hyd yr Archeb, byddwch yn darparu'r Gwasanaethau i ni.
- (ii) Byddwch yn bodloni unrhyw amserlenni, dyddiad a cherrig milltir perfformiad ar gyfer y Gwasanaethau a nodir yn yr Archeb neu Fanylebau.
- (iii) Wrth ddarparu'r Gwasanaethau byddwch yn:

- (a) cydweithredu â ni ym mhob mater sy'n ymwneud â'r Gwasanaethau, ac yn cydymffurfio â'r cyfarwyddiadau rhesymol a chyfreithlon;
- (b) cyflawni'r Gwasanaethau gyda'r gofal, medr a'r diwydrwydd gorau ac yn unol ag arfer gorau yn niwydiant, proffesiwn neu fasnach y Cyflenwr;
- (c) defnyddio personél sydd â medrau a phrofiad addas i gyflawni'r tasgau a benodwyd iddynt ac mewn niferoedd digonol i sicrhau bod eich dyletswyddau'n cael eu cyflawni'n unol â'r Cytundeb;
- (d) sicrhau bod y Gwasanaethau a'r Gofynion Cyflawni yn cydymffurfio â'r Manylebau ac y bydd y Gofynion Cyflawni'n addas i unrhyw ddiben goblygedig neu ymhlyg a hysbyswyd gennym ni i chi (yn cynnwys unrhyw un yn ein GiD);
- (e) darparu ar eich cost eich hun yr holl gyfarpar, offer a cherbydau ac eitemau eraill y mae eu hangen i ddarparu'r Gwasanaethau;
- (f) defnyddio'r deunyddiau, safonau a thechnegau o'r ansawdd gorau, a sicrhau bod y Gofynion Cyflawni a deunyddiau eraill a gyflenwyd neu a ddefnyddiwyd yn y Gwasanaethau neu a drosglwyddwyd i ni, heb unrhyw ddiffygion o ran crefft, gosod a dyluniad; a
- (g) pheidio â gwneud unrhyw beth a allai beri i ni golli unrhyw drwydded, awdurdod, gydsyniad neu ganiatâd yr ydym yn dibynnu arno i ddiben cynnal ein busnes, a'ch bod yn cydnabod y gallem ni ddibynnu neu weithredu ar y Gwasanaethau.

## **6. PERSONÉL ALLWEDDOL**

- (i) Byddwch yn gwneud pob ymdrech resymol i sicrhau bod Personél Allweddol yn parhau i fod yn gyflogeion a'u bod ar gael i ddarparu'r Nwyddau a/neu Wasanaethau yn ystod cyfnod y Cytundeb.
- (ii) Byddwch yn ein hysbysu'n ysgrifenedig ynghylch unrhyw fater neu amgylchiad a allai effeithio ar argaeledd Personél Allweddol yn brydlon ar ôl dod yn ymwybodol o'r sefyllfa.
- (iii) Os na fydd unrhyw un o'r Personél Allweddol ar gael yn ystod y Cytundeb, byddwch yn cynnig rhywun arall addas (gyda lefelau sgiliau cyfwerth a phrofiad tebyg) i ni'n ysgrifenedig. Ni chaniateir newid unrhyw Personél Allweddol i ddarparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau oni bai ein bod wedi cymeradwyo hynny'n ysgrifenedig ymlaen llaw (ni ddylid defnyddio'r cyfryw ganiatâd yn afresymol, ei atal na'i ohirio)). Os na ellir dod o hyd i rywun arall sy'n rhesymol dderbyniol, bydd hawl gennym, drwy eich hysbysu'n ysgrifenedig, i ddod â'r Cytundeb i ben yn syth.

## **7. DEUNYDD PECYNNU**

Oni nodir yn wahanol yn y Cytundeb, tybir y bydd y deunydd pecynnu'n cael ei gasglu a'i symud gennych ar eich cost eich hun. Ni fydd dyletswydd arnom i ddychwelyd i chi unrhyw ddeunydd Pecynnu. Os gwneir cytundeb ysgrifenedig penodol ynghylch dychwelyd y deunydd pecynnu gennym ni ar ôl ei gludo, bydd yn rhaid ichi gyflwyno cyfarwyddyd llawn ar sut i wneud hynny cyn amser y cludiad. Mae'n rhaid nodi'n amlwg pwy biau'r deunydd pecynnu. Bydd yn rhaid i chi wneud trefniadau addas ymlaen llaw cyn dychwelyd y deunydd pecynnu er mwyn talu'r holl gostau sy'n gysylltiedig â thrafod a chludo. Ni fyddwn yn gyfrifol am unrhyw ddeunydd pecynnu a gollir neu a ddirifodir wrth ei gludo.

## **8. DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL**

- (i) Byddwch yn sicrhau bob amser eich bod yn cynnal unrhyw drwyddedau, caniatâd, cydsyniad a thrwyddedau angenrheidiol i gyflawni eich dyletswyddau o dan y Cytundeb mewn perthynas â'r Nwyddau a/neu Wasanaethau, yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i weithgynhyrchu, deunydd Pecynnu, pecynnu a chludo'r Nwyddau.
- (ii) Rydych yn gwarantu bod yr holl wybodaeth a ddarparwyd i ni mewn cysylltiad â'r Cytundeb, yn cynnwys mewn unrhyw ddyfynbrisiau neu Fanylebau neu Ymateb i Dendr, yn gyflawn, yn gywir ac nad yw'n gamarweiniol mewn unrhyw ffordd.
- (iii) Byddwch yn cydymffurfio â'n Polisiau Mandadol.
- (iv) Byddwch yn cadw at yr holl reolau a rheoliadau iechyd a diogelwch ac unrhyw ofynion diogelwch eraill sy'n berthnasol yn unrhyw un o'n safleoedd; a
- (v) Byddwch yn cydymffurfio â'r holl ddeddfau, statudau, rheoliadau a safonau perthnasol o bryd i'w gilydd sydd mewn grym;

## **9. MAINT A GWERTHOEDD BUSNES**

Unrhyw amcangyfrifon ysgrifenedig neu lafar o faint neu werthoedd busnes posibl, a nodwyd gennym y gellid bod eu hangen dan y Cytundeb (er enghraifft mewn unrhyw GiD), ond nad ydynt yn rhan o Archeb, ac a ddarperir fel canllaw'n unig, a heb fod yn ymrwymo ac ni roddir sicrwydd ynglŷn â'r raddfa gyffredinol y defnyddir y Cytundeb.

## 10. **PRIS**

- (i) Byddwch yn gwerthu'r Nwyddau neu'n darparu'r Gwasanaethau am y pris di-syfl a nodir yn y Cytundeb, oni nodir y cyfryw bris yn y Cytundeb, a'n bod wedi cytuno ar restr prisiau mewn perthynas â darparu'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau, yn yr achos hwnnw bydd y rhestr prisiau mewn grym ar ddyddiad y Cytundeb yn berthnasol.
- (ii) Bydd y pris yn cynnwys pob tâl am storio, Pecynnu, danfon ar long, cludiad, yswiriant a dosbarthu unrhyw nwyddau i'r cyfeiriad danfon, gosod a chomisiynu (fel y bo'n berthnasol) ac unrhyw ddyletswyddau, trethi neu dollau eraill heblaw am dreth ar werth.
- (iii) Ni chaniateir unrhyw gynnydd mewn pris boed ar gyfrif cynnydd mewn costau deunydd crai, llafur neu deithio, newid mewn cyfraddau cyfnewid neu fel arall heb ein caniatâd ysgrifenedig ymlaen llaw.
- (iv) Bydd gennym hawl i gael gostyngiad am dalu'n brydlon, swmp-brynu neu faint y prynu a ganiateir gennych fel arfer, boed hynny'n weladwy neu beidio yn eich telerau a'ch amodau gwerthu chi.

## 11. **TALU**

- (i) Ac eithrio fel y nodir yn wahanol ar yr Archeb, bydd gennych hawl i'n hanfonebu am y Pris unrhyw amser ar ôl cwblhau'r broses o ddarparu'r Nwyddau a/neu gyflawni'r Gwasanaethau yn unol ag amodau a thelerau'r Cytundeb a'n bodlonwydd rhesymol.
- (ii) Yn unol ag amod 12, byddwn yn talu anfonebau diamwys sydd wedi eu cyflwyno'n gywir cyn pen 30 diwrnod i'w derbyn. Dylid cyfeirio eich anfoneb i'r adran a nodir ar yr Archeb a dylid dyfynnu rhif yr Archeb yn llawn. Dangosir TAW, lle bo'n briodol, ar wahân ar bob anfoneb fel tâl ychwanegol net yn unig. Ni fyddwn yn gyfrifol am ohirio taliadau a achoswyd gan fethiant ar eich rhan i gydymffurfio â'n cyfarwyddyd anfonebu.
- (iii) Yn amodol ar ddarpariaethau amodau 11(i), 11(ii) a 27, os na wneir taliad am unrhyw swm sy'n ddyledus i chi o dan y Cytundeb gennym ni ar neu cyn y dyddiad y mae'n ddyledus, bydd hawl gennych i godi llog ar y swm dyledus o'r dyddiad y mae'r taliad yn ddyledus tan y dyddiad y byddwch yn derbyn taliad (boed cyn neu ar ôl cael dyfarniad yn ein herbyn), ar gyfradd o 2% y flwyddyn uwchlaw cyfradd sylfaenol Banc Lloegr. Bydd y cyfryw log yn cronni'n ddyddiol a'i gompowndio'n chwarterol.
- (iv) Bydd hawl gennym i osod symiau y mae arnoch chi i ni yn erbyn y Pris.

## 12. **METHU Â CHYFLAWNI**

### (i) **Amseroedd Dosbarthu ar gyfer Nwyddau a Gofynion Cyflawni**

Os nad yw'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni neu unrhyw ran ohonynt yn cael eu dosbarthu erbyn yr amser neu'r amseroedd a nodir yn y Cytundeb, yna mae'n bosibl y byddwn, drwy rybudd ysgrifenedig, yn canslo unrhyw Nwyddau neu Ofynion Cyflawni heb eu dosbarthu sy'n weddill. Gallwn hefyd ddychwelyd i gael ad-daliad llawn ac ar eich cost chi unrhyw Nwyddau neu Ofynion Cyflawni na ellir yn ein barn ni eu defnyddio oherwydd y canslo hwn.

### (ii) **Gwasanaethau**

Yn achos Gwasanaethau y methir eu cyflawni i'r safonau neu lefelau ansawdd sy'n ofynnol gan y Cytundeb neu o fewn y rhaglen dyddiadau neu amseroedd gofynnol yn y Cytundeb, bydd gennym hawl i fabwysiadu un neu fwy o'r atebion canlynol:

- (a) dod i ben â'r gwaith drwy ddulliau eraill a phriodoli pob cost resymol ychwanegol a gyfyd i chi;
- (b) tynnu swm a ystyrir yn rhesymol gennym am y Gwasanaethau anfodddhaol a ddarparwyd neu swm i gwrdd â'r costau ychwanegol sy'n codi o amod 12(ii)(a); a/neu
- (c) terfynu'r Cytundeb naill ai ar gyfer y Gwasanaethau penodol nas ddarparwyd yn unol â'r Cytundeb neu ar gyfer yr holl Wasanaethau. Yn y naill achos neu'r llall ni fydd iawndal yn ddyledus i chi, heblaw am y taliadau am y rhannau hynny o'r Gwasanaeth a ddarparwyd yn foddhaol ond sydd yn ddarostyngedig i amod 12(ii)(a).

Os terfynir y Cytundeb, byddwch yn cydweithredu wrth drosglwyddo Gwasanaethau, yn enwedig o dan amodau TUPE, i unrhyw sefydliad arall yn unol â'r cyngor gennym ni.

### (iii) **Nwyddau a Gofynion Cyflawni**

Oni bai y nodir yn wahanol yn yr Archeb, bydd cyfnod gwarant o 12 mis calendr o leiaf ar gyfer unrhyw Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni a ddarperir i ni, o'r amser y darperir y Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni hynny. Bydd eich gwarant yn sicrhau bod y Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni hynny'n cydymffurfio â'r gofynion yn amod 3(i). Heb ragfarnu ar unrhyw ateb gennym ni, os na chyflenwir unrhyw Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni neu os nad ydynt yn cydymffurfio â'r gofynion yn amod 3(i) yn ystod cyfnod y warant, bydd hawl gennym:

- (a) i'ch gorfodi i gywiro'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni neu gyflenwi Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni yn eu lle sy'n cydymffurfio o fewn 14 diwrnod; neu

- (b) un opsiwn yn unig, a ph'un ai a ydym wedi eich gorfodi'n flaenorol i gywiro'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni neu gyflenwi unrhyw Nwyddau a/neu Ofynion Cyflawni yn eu lle, i ymdrin â'r Cytundeb a gyflawnwyd gennych yn groes i'r gofynion a gofyn i chi ad-dalu unrhyw ran o'r Pris a dalwyd i chi.

Bydd y gwarant uchod yn berthnasol i nwyddau a/neu wasanaethau sy'n cael eu trwsio neu gyfnewid sy'n unol ag amod 12 ond am gyfnod o 12 mis o'u derbyn gennym ni.

### 13. TERFYNU

- (i) Bydd gennym hawl i ganslo'r Archeb mewn perthynas â phob rhan neu ran yn unig o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau heb rwymedigaethau, drwy eich hysbysu yn ystod unrhyw adeg cyn dosbarthu neu gyflenwi oni bai yn achos Nwyddau, bod y Nwyddau hynny wedi'u cynhyrchu yn benodol ar gyfer ein gofynion ni. Bryd hynny, ein hunig ddyletswydd fydd talu am bris y Nwyddau o ran defnyddio ein hawl i ganslo, gan dynnu eich costau net a arbedwyd a ddaw yn sgil y canslo.
- (ii) Bydd gennym hawl i derfynu'r Cytundeb heb rwymedigaethau drwy eich hysbysu ar unrhyw adeg os:
- (a) ydych yn atal, neu'n bygwth atal, talu eich dyledion neu'n methu â thalu eich dyledion pan fônt yn ddyledus neu'n cyfaddef na ellir talu eich dyledion neu (os ydych yn gwmni) tybir na ellir talu eich dyledion o fewn ystyr adran 123 o Ddeddf Ansoffedd 1986 (os ydych yn unigolyn) tybir naill ai na allwch dalu eich dyledion neu nad oes rhagolygon rhesymol o wneud hynny, yn y naill achos neu'r llall, o fewn ystyr adran 268 o Ddeddf Ansoffedd 1986 neu (os ydych yn bartneriaeth) bod gennych unrhyw bartner y mae unrhyw un o'r amodau blaenorol yn berthnasol iddo;
  - (b) eich bod yn dechrau trafodaethau gyda phob un neu unrhyw ddsbarth o'ch credydwr gyda golwg ar ail-amserlennu unrhyw un o'ch dyledion, neu'n gwneud cais ar gyfer neu'n dod i gyfaddawd neu drefniant gyda'ch credydwr, ac eithrio (os ydych yn gwmni) i'r unig ddiben o gynllunio eich bod yn cyfuno gydag un neu fwy o gwmnïau eraill (*solvent amalgamation*) neu ailsaernio (*solvent reconstruction*);
  - (c) llunnir deiseb, rhoddir rhybudd, gwneir penderfyniad, neu orchymyn, ar gyfer neu mewn cysylltiad â dirwyn i ben (os ydych yn gwmni) ac eithrio i'r unig ddiben o gynllunio eich bod yn cyfuno gydag un neu fwy o gwmnïau eraill (*solvent amalgamation*) neu ailsaernio (*solvent reconstruction*);
  - (d) ydych chi (os ydych yn unigolyn) yn destun gorchymyn deiseb methdaldu;
  - (e) yw credydw'r neu lyffetheiriwr i chi'n atafaelu neu'n meddiannu, neu os gorfodir proses atafaelu, cyflawni, secwestra neu gyfryw broses arall neu yr erlynir yn ei herbyn, na chyflawnir y cyfryw broses neu eich holl asedau neu ran ohonynt o fewn 14 diwrnod;
  - (f) gwneir cais i lys, neu y gwneir gorchymyn, i benodi gweinyddwr neu os rhoddir rhybudd o fwriad i benodi gweinyddwr neu os penodir gweinyddwr drosoch chi (os ydych yn gwmni);
  - (g) yw deilydd taliad arnaf dros eich asedau (os ydych yn gwmni) wedi cael yr hawl i benodi neu wedi penodi derbynnydd gweinyddol;
  - (h) yw person yn cael yr hawl i benodi derbynnydd dros eich asedau neu y penodir derbynnydd dros eich asedau;
  - (i) yw unrhyw ddigwyddiad yn digwydd, neu achos yn cael ei gymryd, mewn perthynas â chi mewn unrhyw awdurdodaeth yr ydych yn destun iddi sy'n cael effaith cyfwerth neu debyg i unrhyw un o'r digwyddiadau y crybwyllir yn amod 13(ii)(a) i amod 13(iv)(g) (yn cynnwys); neu
  - (j) os ydych yn atal neu'n bygwth atal, neu'n peidio neu fygwth peidio â pharhau â'ch holl fusnes neu ran sylweddol ohono.
- (iii) Gallwn derfynu'r Cytundeb drwy roi rhybudd ysgrifenedig o 30 Diwrnod Busnes i chi os:
- (a) ydych yn torri unrhyw un o delerau'r Cytundeb dro ar ôl tro mewn modd sy'n cyfiawnhau'n rhesymol y farn bod eich ymddygiad yn anghyson â'ch bwriad neu allu i weithredu telerau'r Cytundeb;
  - (b) yw'r Cytundeb wedi bod yn destun addasu sylweddol a fyddai wedi galw am broses dendro newydd yn unol â rheoliad 72(9) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 2015;
  - (c) ydych chi, ar adeg dyfarnu'r Cytundeb, wedi bod yn un o'r sefyllfaoedd y cyfeirir atynt yn rheoliad 57(1) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus 57(2), yn cynnwys o ganlyniad i gymhwyso rheoliadau 57(2) o Reoliadau Contractau Cyhoeddus, ac y dylid felly bod wedi eich gwahardd o unrhyw broses dendro a gynhaliwyd mewn perthynas â'r Cytundeb; neu
  - (d) na ddylid bod wedi dyfarnu'r Cytundeb i chi gyda golwg ar achos difrifol o dorri'r rhwymedigaethau o dan Gytuniad ar yr Undeb Ewropeaidd, y Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd neu Gyfarwyddeb

**14. TERFYNU AM ANUFUDDHAU NEU DORRI'R TELERAU**

Os ydych yn torri'r amodau yn y Cytundeb hwn neu'n methu â chydymffurfio â hwy mae gennym hawl i'ch hysbysu'n ysgrifenedig fod toriad neu anufudd-dod o'r fath wedi digwydd a bydd gennych 28 diwrnod o'r dyddiad y derbynnir yr hysbysiad i gywiro'r toriad neu'r anufudd-dod. Yn achos torri cytundeb perthnasol, rhoddir uchafswm o 7 diwrnod i'w gywiro. Os methir â chywiro'r toriad, anufudd-dod neu doriad o bwys o fewn yr amser penodedig, bydd gennym yr hawl i derfynu'r Cytundeb ar unwaith ac yn ddi-gosb.

**15. AMRYWIADAU**

- (i) Bydd gennym yr hawl, cyn y dosbarthu, i ddanfon Newid yn yr Archeb sydd yn ychwanegu at y Nwyddau a'r Gwasanaethau neu'n eu diddymu neu'n eu diwygio.
- (ii) Os bydd y Newid mewn Archeb yn achosi newid i'r Pris neu ddyddiad dosbarthu bydd yn rhaid i chi ein hysbysu heb oedi o unrhyw Bris a dyddiad dosbarthu newydd. Rhaid i chi ganiatáu cyfnod rhesymol o amser i ni ystyried unrhyw Bris newydd arfaethedig ac ow yw'n briodol, dyddiad dosbarthu newydd arfaethedig.
- (iii) Daw'r Newid mewn Archeb i rym yn unig os derbynnir yn ysgrifenedig y Pris a'r dyddiad dosbarthu newydd o fewn yr amser a nodir gennych gan ein Swyddog Awdurdodi.
- (iv) Os yw ein Swyddog Awdurdodi yn gwrthod y Pris a'r dyddiad dosbarthu newydd, bydd ganddo'r hawl i ddewis naill ai cadarnhau yr ailgydir yng nghyflenwi'r Cytundeb yn syth fel pe na bai'r newid mewn archeb heb ei gyflwyno, neu ganslo'r Archeb wreiddiol.

**16. EIDDO A RISG MEWN NWYDDAU**

- (i) Chi a fydd yn gyfrifol am bob risg o golli neu ddirodi'r Nwyddau hyd nes y cânt eu dosbarthu'n briodol a'u dadlwytho i'r Lleoliad Dosbarthu, a byddwch yn eu hyswiro'n unol â hynny. Yn ddarostyngedig i amodau 4(vi) a 12, bydd y risg yn y Nwyddau'n trosglwyddo i ni wrth ddosbarthu'r Nwyddau'n unol â'r Cytundeb.
- (ii) Trosglwyddir meddiant o'r Nwyddau i ni pan delir amdanynt yn llawn.

**17. RHWYMEDIGAETH AC INDEMNITI**

- (i) Byddwch yn ein digolledu ac yn parhau i wneud hynny yn erbyn bob rhwymedigaeth, cost, traul, difrod a cholled (yn cynnwys ond heb ei gyfyngu i unrhyw golledion uniongyrchol, anuniongyrchol neu ganlyniadol, colli elw neu niwed i enw da, a'r holl log, cosbau a chostau cyfreithiol (a gyfrifir ar sail indemniti llawn) a phob cost a thraul broffesiynol resymol arall) a berir neu a achosir gennym ni o ganlyniad neu mewn cysylltiad ag unrhyw achos o dorri'r Cytundeb neu gyflawni esgeulus neu fethu neu oedi o ran cyflawni'r Gwasanaethau neu ddosbarthu'r Nwyddau gennych chi, eich gweithwyr neu eich isgontractwyr.
- (ii) Heb ragfarnu darpariaethau amod 17 (iii) nad yw darpariaethau'r amod hwn 17(ii) yn berthnasol iddynt, bydd holl rwymedigaeth gyfun bob parti i'r parti arall o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb, yn cael ei gapio ar sail cyfanswm gwerth y Cytundeb, waeth faint o hawliadau a wneir, neu symiau eraill fel y nodir yn yr Archeb.
- (iii) Ni fydd unrhyw beth yn y Cytundeb hwn yn cyfyngu ar neu'n eithrio rhwymedigaeth y naill barti na'r llall o ran:
  - (a) marwolaeth neu anaf personol o ganlyniad i esgeulustod;
  - (b) bod y Cyflenwr yn torri'r Cytundeb neu gyflawniad esgeulus neu ddiffyg cyflawni;
  - (c) twyll neu gam-gynrychioli twyllodrus;
  - (d) torri'r telerau ymhyg yn adran 12 o Ddeddf Gwerthu Nwyddau 1979; neu
  - (e) gamymddwyn bwriadol neu fwriadus y parti hwnnw, ei weithwyr, asiantau neu isgontractwyr.

**18. YSWIRIANT**

- (i) Byddwch, yn weithredol o ddyddiad yr Archeb, yn sefydlu a chynnal yn ystod yr amser mae'n ei gymryd i chi ddarparu'r Nwyddau a/neu Wasanaethau o dan y Cytundeb ac am gyfnod o 6 mlynedd wedi hynny bolisiau yswiriant addas gyda chwmnïau yswiriant neu warantwyr dibynadwy yn erbyn yr holl risgiau yr yswirir yn eu herbyn yn arferol gan gyflenwr darbodus Nwyddau a/neu Wasanaethau o'r fath a thalu'r holl breimiymau dyledus o safbwynt hyn. Deallir a chytunir mai eich cyfrifoldeb chi fydd sicrhau bod y swm yn unol â'r polisïau gennych yn ddigonol yn unol ag arfer ac ymarfer y diwydiant ac amgylchiadau arbennig y Cytundeb. Heb ragfarnu yn erbyn cyffredinolrwydd y manylion blaenorol, byddwch yn yswiro'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau ar sail gwerth llawn eu newid yn erbyn pob risg o ddirodi a cholled, oni bai bod yr Archeb neu'r Fanyleb yn nodi'n wahanol.

- (ii) Byddwch yn rhoi i ni, ar gais, gopïau o'r holl bolisiau yswiriant y cyfeirir atynt yn yr amod hwn neu ddilysiad o yswiriant y brocer i ddangos bod yr yswiriant angenrheidiol a nodir yn amod 18(i) yn eu lle, ynghyd â derbynebau neu dystiolaeth arall o dalu'r premiymau dyledus diweddaraf o dan y polisiau hynny.
- (iii) Os, am ba reswm bynnag, na allwch weithredu a chynnal yr yswiriant angenrheidiol, mae'n bosibl ond nid ydym wedi ymrwymo i wneud trefniadau eraill i ddiogelu eich buddiannau ac mae'n bosibl y byddwn yn adennill costau trefniadau o'r fath gennych.
- (iv) Ni fydd telerau unrhyw yswiriant neu swm yr yswiriant yn eich rhyddhau rhag unrhyw rwymedigaethau o dan y Cytundeb.

## **19. ORIAU GWEITHIO**

Wrth gynnal ein Gwasanaethau yn ein hadeiladau, efallai y nodir y cyfnod y byddwch yn cyflawni'ch gwaith a/neu caiff y gwaith ei wneud mewn modd sy'n amharu cyn lleied â phosibl ar ein busnes.

## **20. GWAITH YN EIN HADEILADAU**

- (i) Os yw'r Cytundeb yn cynnwys Gwasanaethau a gyflawnir yn ein hadeiladau neu osod Nwyddau yn ein hadeiladau, byddwch, os gwneir cais ysgrifenedig gennym, yn cyflwyno'r wybodaeth i'w defnyddio ar gyfer adolygu, naill ai cyn neu yn ystod y Cytundeb:
  - (a) eich polisi diogelwch;
  - (b) eich cynllun diogelwch;
  - (c) eich cynllun diogelwch tân;
  - (d) eich asesiadau risg;
  - (e) eich ystadegau damweiniau am y 5 mlynedd diwethaf;
  - (f) eich dogfennau yswiriant dilys;
  - (g) unrhyw hysbysiad gwella yr ydych wedi ei dderbyn; ac
  - (h) unrhyw achos o erlyniad neu erlyniad buan yn eich erbyn o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch.
- (ii) Byddwch yn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Cytundeb (yn cynnwys y rhai mewn perthynas â'r Gwasanaethau) yn unol â:
  - (a) phob deddfwriaeth neu reoliad perthnasol o safbwynt iechyd a diogelwch; a'n
  - (b) Polisi Iechyd a Diogelwch tra ydych yn ein hadeiladau.

## **21. EITEMAU AR FENTHYG A DEFNYDDIO GWYBODAETH**

Bydd pob offer, deunydd, lluniad, manyleb ac unrhyw gyfarpar arall neu ddata ('Yr Eitemau') a roddwyd ar fenthyg ichi mewn cyswllt â'r Cytundeb yn parhau'n eiddo inni bob amser ac fe'u rhoddir yn ôl ar ein cais mewn cyflwr da ac o ddefnydd (ond caniateir traul dderbyniol) ac fe'u defnyddir gennych chi er mwyn cyflawni'r cytundeb yn unig. Yr ydych yn cytuno na wneir copi o unrhyw un o'r eitemau gennych heb ganiatâd ysgrifenedig ein Swyddog Awdurdodi. Hyd nes y dychwelwch bob Eitem i ni, byddant o dan eich gofal ac o dan eich yswiriant chi a dalwyd gennych chi rhag iddynt gael eu colli, dwyn neu eu difrodi. Digolledir os collir neu y difrodir eitemau o'r fath gennych chi ar eich cost chi gan gynnwys, yn achos colli allweddî adeiladau, neu gardiau mynediad electronig, costau ailosod y system angenrheidiol ar gyfer adfer lefel wreiddiol diogelwch yr adeilad. Bydd yn rhaid gwaredu pob sgrap a ddaw yn sgil yr Eitemau hyn yn unol â'n dymuniad ni a bydd yn rhaid talu'r holl enillion o werthu gwastraff i ni'n llawn.

## **22. PERCHNOGAETH GOFYNION CYFLAWNI**

- (i) Oni bai bod yr Archeb yn nodi'n wahanol, rydych yn cydnabod ac yn cytuno y bydd unrhyw a phob Hawl Eiddo Deallusol o safbwynt y Gofynion Cyflawni a grëir a neu a ddatblygir gennych chi i ni mewn cysylltiad â'r Nwyddau a/neu Wasanaethau, ond ac eithrio unrhyw Ofynion Cyflawni sy'n bodoli eisoes neu rai trydydd parti ("Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni") yn perthyn i ac wedi eu breinio ynom yn llwyr a thrwy hynny rydych yn:
  - (a) Aseinio i ni'n llwyr gyda gwarant teitl llawn bob hawl, teitl a budd ledled y byd yn ac i unrhyw a phob hawlfraint, hawliau o ran natur yr hawlfraint, hawlfraint cronfeydd data a hawliau dylunio anghofrestredig y DU ac



Ewropeaidd sydd o fewn Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni i'r graddau y bydd yr holl gyfryw hawliau wedi eu breinio ynom yn awtomatig ac yn syth ar y dyddiad y creïr y cyfryw hawliau gennych chi; a

- (b) Chytuno i aseinio i ni'n llwyr gyda gwarant teitl llawn bob hawl, teitl a budd ledled y byd yn ac i holl Hawliau Eiddo Deallusol eraill y Gofynion Cyflawni

am y cyfnod llawn felly, yn cynnwys pob adnewyddiad ac estyniad, ynghyd â phob hawl, budd neu bŵer yn codi neu a geir, yn cynnwys yr hawl i erlyn am iawn ac atebion eraill o safbwynt unrhyw dor-amod rhannol neu bresennol o Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni.

- (ii) Lle y bo'r Archeb yn nodi nad yw Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni wedi eu haseinio i ni gyda theitl llwyr ond yn hytrach wedi eu trwyddedu i ni gennych chi, bydd yn drwydded neilltuedig i ni ddefnyddio Hawliau Eiddo Deallusol y Gofynion Cyflawni i ddiben ein mwynhad llawn o'r Nwyddau a/neu'r Gwasanaethau ac a fydd yn goroesi unrhyw derfynu ar yr amodau hyn, oni bai y cytunwyd yn wahanol rhwng y ddau barti.

### **TORRI HAWLIAU EIDDO DEALLUSOL**

- (i) Ac eithrio'r Nwyddau a wnaethpwyd yn ôl ein dyluniad, byddwch yn gwarantu na fydd y Nwyddau, y Gofynion Cyflawni ac unrhyw feddalwedd o fewn y Nwyddau neu'r Gofynion Cyflawni'n torri unrhyw batent, dyluniad cofrestredig, nod masnach, hawlfraint neu hawliau eraill gan drydydd parti a byddwch yn ein digolledu am bob achos, hawliad, costau a threuliau a gyfyd neu a achoswyd gan unrhyw achos neu achos honedig o dorri ar unrhyw hawl o'r fath o ganlyniad i'n defnydd neu ein perchnogaeth o'r cyfryw Nwyddau, Gofynion Cyflawni neu feddalwedd.
- (ii) Os gwneir cyhuddiad ar unrhyw adeg fod torri patent, dyluniad cofrestredig neu hawlfraint wedi digwydd yng nghyswllt y Nwyddau'r neu'r feddalwedd neu os yw'n debygol o ddigwydd yn eich barn resymol chi, gallwch ar eich cost eich hun addasu'r Nwyddau neu'r Gofynion Cyflawni neu eu cyfnewid, heb dynnu oddi ar y perfformiad cyffredinol. Ar yr un pryd byddwch yn gwneud yn iawn am unrhyw golled ar ddefnydd o'r Nwyddau neu'r Gwasanaethau yn ystod yr addasu neu'r cyfnewid, er mwyn osgoi'r torri hawl.

### **POLISI AMGYLCHEDDOL**

- (i) Rhaid i chi gydymffurfio â'ch dyletswyddau o dan unrhyw ddeddf amgylcheddol berthnasol ac unrhyw bolisi amgylcheddol a sefydlwyd gennym ni ac a ddygir i'ch sylw o bryd i'w gilydd.
- (ii) Rydym yn sefydliad sy'n ymwbybodol o'r amgylchedd a rhaid i chi wneud pob ymdrech i leihau effaith amgylcheddol y prosesau wrth ddylunio, gweithgynhyrchu ac adeiladu'r Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni a gyflenwir gennych chi a'ch isgcontractwyr i ni ac wrth ddarparu'r Gwasanaethau. Ystyrir y prosesau dan sylw mewn perthynas â lleihau'r ynni a ddefnyddir, defnyddio deunyddiau y gellir ailgylchu lefel uchel o'u cynnwys, lleihau gwastraff a gynhyrchir a defnyddio dulliau gwaredu da yn ogystal ag ailgylchu'r cynnyrch ar ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Bydd unrhyw ddyluniad yn cynnwys ystyried lleihau effaith amgylcheddol y cynnyrch yn ystod y broses weithgynhyrchu a thrwy gydol cylch oes y Nwyddau a/neu'r Gofynion Cyflawni.

### **ASEINIO AC IS-CONTRACTIO**

- (i) Ni fyddwch heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw gennym (ni ddylid defnyddio'r cyfryw ganiatâd yn afresymol, ei atal na'i ohirio) aseinio, newyddu, trosglwyddo, codi tâl neu ymdrin mewn unrhyw ffordd arall â'r Cytundeb neu unrhyw hawl dan y Cytundeb neu honni gwneud hynny, nac is-gontractio unrhyw neu bob un o'r dyletswyddau o dan y Cytundeb.
- (ii) Byddwch yn darparu'n brydlon i ni unrhyw wybodaeth y gofynnir amdani gennym o safbwynt unrhyw ymwneud arfaethedig â'r Cytundeb a hysbysir i ni'n unol ag amod 25(i), yn cynnwys unrhyw is-gontractio. Mewn perthynas ag unrhyw is-gontractio neu aseinio bydd y cyfryw wybodaeth yn cynnwys manylion ynghylch yr is-gontractwr neu gynrychiolydd arfaethedig a'i allu technegol, profiad a sefyllfa ariannol.
- (iii) Rhag unrhyw amheuaeth a heb gyfyngu ar ei ddisgresiwn mewn unrhyw ffordd, bydd y ddau barti'n cytuno y bydd yn rhesymol i ni wrthod ein caniatâd i chi is-gontractio, aseinio neu ymwneud arall gennych chi os:
  - (a) ydym yn ystyried nad yw'r is-gontractwr neu'r cynrychiolydd yn cyflawni'r meini prawf ar gyfer dewis a amlinellir mewn unrhyw broses dendro a gyflawnir gennym o safbwynt y Cytundeb; neu'n
  - (b) ystyried y gallai unrhyw is-gontractio, aseinio neu ymwneud arall arwain at fethiant gennych chi (neu'r trydydd parti perthnasol) i gyflawni'r meini prawf ar gyfer dewis a amlinellir mewn unrhyw broses dendro a gyflawnir gennym o safbwynt y Cytundeb; neu'n
  - (c) ystyried y gallai unrhyw is-gontractio, aseinio neu ymwneud:
    - (i) arwain at addasu'r Cytundeb yn sylweddol; neu

- (ii) fod unrhyw is-gontractio, aseinio neu ymwneud wedi ei anelu at, neu'n arwain at, osgoi cymhwyso Cytuniad ar Weithrediad yr Undeb Ewropeaidd, Cyfarwydddeb Ewropeaidd 2014/24 neu'r PCR (fel y diffinnir y term yn amod 13(iii)(b)).
- (iv) Bydd unrhyw is-gontractio gennych chi a ganiateir gennym ni'n:
  - (a) cael ei gaffael gennych chi ar sail amodau a thelerau sy'n gyfwerth (cyn belled ag y mae'n rhesymol fasnachol) â'r amodau a'r telerau a nodir yn y Cytundeb. Byddwch hefyd yn ystyried a dilysu unrhyw anfonebau a gyflwynwyd i chi gan yr is-gontractwr yn brydlon ac yn talu unrhyw symiau sy'n ddyledus o dan y cyfryw anfonebau ddim hwyrach na chyfnod o 30 diwrnod o'r dyddiad y maent yn ddyledus; ac
  - (b) ni'ch rhyddheir o unrhyw ddyletswyddau o dan y Cytundeb a byddwch yn gyfrifol am weithredoedd a hepgorion eich isgontractwyr fel pe baent yn eiddo i chi eich hun.
- (v) Rhag amheuaeth, bydd hawl gennym i aseinio, newyddu, trosglwyddo, is-gontractio a gwaredu fel arall unrhyw neu bob hawl a dyletswydd o dan y Cytundeb heb eich caniatâd ymlaen llaw, a byddwch yn llunio'r cytundebau hynny, yn cynnwys gweithredoedd newyddu, yn ôl ein cais o bryd i'w gilydd mewn cysylltiad â hyn.

## **26. MATERION TU HWNT I REOLAETH**

- (i) Ni fydd y naill barti na'r llall yn torri'r Cytundeb nac yn atebol am oedi o ran cyflawni, neu fethu â chyflawni, unrhyw un o'i ddyletswyddau o dan y Cytundeb, os yw oedi neu fethiant o'r fath yn deillio o ddigwyddiadau, amgylchiadau neu achosion y tu hwnt i'w reolaeth resymol ("Digwyddiad Force Majeure").
- (ii) Bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i leihau effaith Digwyddiad Force Majeure ar gyflawni eich dyletswyddau.
- (iii) Os bydd Digwyddiad Force Majeure yn atal, rhwystro neu ohirio cyflawni eich dyletswyddau am gyfnod parhaus o fwy na 30 Diwrnod Busnes, mae'n bosibl y deuir â'r Cytundeb i ben yn syth heb roi rhybudd ysgrifenedig i chi.

## **27. DATRYS ANGHYDFOD**

- (i) Bydd pob anghydfod neu wahaniaeth rhyngom ni a chi'n deillio o neu mewn cysylltiad â'r Gwasanaethau a gyflawnir o dan y Cytundeb yn cynnwys unrhyw gwestiwn ynglŷn â'i neu â'u bodolaeth, dilysrwydd neu derfyniad ("**Anghydfod**"), ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall, yn cael ei gyfeirio at ein rheolwyr Cytundeb perthnasol.
- (ii) Os na fydd ein rheolwyr Cytundeb perthnasol yn cytuno ar ddatrysiad i'r Anghydfod o fewn 7 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais, bydd yr Anghydfod, ar gais ysgrifenedig y naill barti neu'r llall, yn cael ei gyfeirio i sylw ein llywydd ac i'ch rheolwr gyfarwyddwr, prif weithredwr neu swyddog cyfatebol.
- (iii) Os nad yw'r unigolion y cyfeiriwyd atynt yn amod 27 (ii) yn cytuno ar ddatrysiad i'r Anghydfod o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais, gallai'r naill barti neu'r llall ofyn i'r parti arall drwy rybudd ysgrifenedig geisio setlo'r Anghydfod yn unol â Gweithdrefn Model Cyfryngu'r Ganolfan Datrys Anghydfod ("**CEDR**"). O fewn 7 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais bydd y ddau barti'n cynnig cyfryngwr ac yn ceisio cytuno ar ddewis cyfryngwr.
- (iv) Os nad yw'r ddau barti'n gallu cytuno ar gyfryngwr o fewn 14 diwrnod i'r dyddiad y gwnaed y cyfryw gais, y cyfeirir ato yn 28 (iii) neu os nad yw'r cyfryngwr y cytunwyd arno'n gallu neu'n anfodlon gweithredu ac nad yw'r ddau barti'n gallu cytuno ar ddewis arall, gallech chi neu ni wneud cais i CEDR benodi cyfryngwr cyn gynted ag y mae'n ymarferol bosibl.
- (v) O fewn 7 diwrnod i benodi cyfryngwr, byddwch chi a ni'n cyfarfod y cyfryngwr er mwyn cytuno ar raglen i gyfnewid unrhyw wybodaeth berthnasol a'r strwythur i'w fabwysiadu ar gyfer y cyd-drafodaethau.
- (vi) Bydd yr holl gyd-drafodaethau'n gysylltiedig â'r Anghydfod yn cael eu cynnal mewn cyfrinachedd llwyr a heb ragfarnu hawliau'r ddau barti mewn unrhyw achosion yn y dyfodol.
- (vii) Os deuir i unrhyw gytundeb ynglŷn â datrys yr Anghydfod, bydd y cyfryw gytundeb yn cael ei ysgrifennu ac, unwaith y caiff ei arwyddo gan bob un o'n cynrychiolwyr awdurdodedig, bydd yn ymrwymo naill barti a'r llall, ac yn parhau i wneud hynny.
- (viii) Bydd costau a threuliau'r broses gyfryngu'n cael eu talu'n gyfartal gennych chi a ni. Bydd pob parti'n talu ei gostau a'i dreuliau ei hun am ei ran yn y broses gyfryngu.
- (ix) Os na ddeuir i gytundeb o fewn 14 diwrnod i benodi Cyfryngwr yna gallai'r Anghydfod gael ei gyfeirio i'r llysoedd. Rydych chi a ni'n cytuno ac yn ymgymryd i gyfeirio unrhyw Anghydfod i'r llysoedd nes bod gweithdrefnau datrys anghydfod yr amod 27 hwn wedi eu dilyn a bod cyfnod o 14 diwrnod wedi dod i ben, ac eithrio mewn amgylchiadau lle mae angen gwaharddiad syth neu gamau eraill gan y llysoedd.

## **28. DIOGELU PLANT AC OEDOLION SY'N AGORED I NIWED**

- (i) Byddwch yn:
  - (a) sicrhau bod pob unigolyn sy'n ymwneud ag unrhyw Weithgarwch sy'n cael ei Reoleiddio o dan y Cytundeb yn destun gwiriad datgelu manylach dilys ar gyfer gweithgarwch sy'n cael ei reoleiddio a wneir drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd);

- (b) monitro lefel a dilysrwydd y gwiriadau o dan yr amod 28(i) hwn ar gyfer pob aelod o staff; a
- (c) pheidio â chyflogi neu ddefnyddio gwasanaethau unrhyw berson sydd wedi ei atal rhag neu sydd ag ymddygiad neu gofnodion blaenorol sy'n dangos na fyddai ef neu hi'n addas i wneud Gweithgarwch sy'n cael ei Reoleiddio neu a allai fel arall fod yn risg i'n defnyddwyr gwasanaeth.
- (ii) Rydych yn gwarantu bob amser i ddiben y Cytundeb hwn nad oes gennych unrhyw reswm i greu fod unrhyw berson sydd neu a fydd yn cael ei gyflogi neu gynnwys gennych chi i ddarparu Nwyddau a/neu Wasanaethau wedi ei (h)atal rhag gwneud y gweithgarwch hwnnw yn unol â darpariaethau Deddf Diogelu Grwpiau Hyglwyf 2006 ac unrhyw reoliadau a wnaed dan y Ddeddf honno, fel y diwygir o bryd i'w gilydd.
- (iii) Byddwch yn ein hysbysu'n syth ynghylch unrhyw wybodaeth y gofynnwn amdani'n rhesymol i'n galluogi i fodloni bod dyletswyddau amod 28 wedi eu bodloni.
- (iv) Byddwch yn cyfeirio gwybodaeth am unrhyw berson sy'n gwneud y Gwasanaethau i'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd lle y mae'n dileu caniatâd i'r cyfryw berson gynnal y Gwasanaethau (neu y byddai wedi gwneud, os na fyddai'r unigolyn hwnnw neu honno wedi rhoi'r gorau i gynnal y Gwasanaethau) oherwydd, yn eich barn chi, fod yr unigolyn hwnnw neu honno wedi niweidio neu'n peri risg o niwed i'n defnyddwyr gwasanaeth, plant neu oedolion agored i niwed.

## **29. CYFRINACHEDD A PHROSESU DATA**

- (i) Byddwch yn cadw'n gwbl gyfrinachol unrhyw wybodaeth o natur gyfrinachol a ddatgelir i chi gennym ni neu a geir gennym ni neu ein staff yn ymwneud â'n busnes, prosesau, cwsmeriaid, cynhyrchion, gwasanaethau a/neu fentrau. Dim ond i'r aelodau hynny o'ch gweithwyr y mae angen yr wybodaeth arnynt i ddiben cyflawni eich dyletswyddau o dan y Cytundeb y byddwch yn datgelu'r wybodaeth gyfrinachol honno, a byddwch yn sicrhau bod eich gweithwyr yn cydymffurfio â'r dyletswyddau a nodir yn yr amod hwn fel pe baent yn rhan o'r Cytundeb. Hefyd gallwch ddatgelu'r hyn sy'n ofynnol o'n gwybodaeth gyfrinachol yn ôl yn gyfraith, unrhyw gais gan y llywodraeth neu y gofynnir am ei datgelu gan unrhyw awdurdod rheoleiddio neu gan lys awdurdodaeth cymwys.
- (ii) Byddwch yn:
  - (a) prosesu'n unig unrhyw Ddata Personol (unrhyw ddata personol a brosesir mewn cysylltiad â darparu'r Gwasanaethau ("Data Personol") ar ac yn unol â'n cyfarwyddiadau;
  - (b) gweithredu mesurau sefydliadol a thechnegol priodol i ddiogelu Data Personol rhag prosesu anawdurdodedig neu anghyfreithlon a cholled neu ddifrod damweiniol;
  - (c) ni fyddwch yn trosglwyddo unrhyw Ddata Personol i unrhyw wlad y tu allan i'r Ardal Economaidd Ewropeaidd;
  - (d) sicrhau bod mynediad at unrhyw Ddata Personol wedi ei gyfyngu i'r aelodau hynny o'ch gweithwyr y mae angen mynediad at y Data Personol arnynt er mwyn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Cytundeb a bod pob aelod o'r Gweithwyr hynny'n cael gwybod am natur gyfrinachol y Data Personol;
  - (e) cydymffurfio â'ch dyletswyddau o dan unrhyw gyfraith diogelu Data berthnasol, ac ni fydd, drwy weithred neu hepgoriad, yn peri ein bod yn torri, neu'n peryglu unrhyw gofrestrriad o dan unrhyw Gyfraith Diogelu Data;
  - (f) ein hysbysu'n brydlon ac yn llawn yn ysgrifenedig o unrhyw hysbysiadau a dderbyniwyd gennych chi mewn cysylltiad â phrosesu unrhyw Ddata Personol, yn cynnwys ceisiadau am fynediad at yr hyn sydd dan sylw, a byddwch yn darparu'r arnom;
  - (g) ein hysbysu'n brydlon ac yn llawn yn ysgrifenedig os bydd unrhyw Ddata Personol yn cael ei ddatgelu nad yw'n cydymffurfio ag amod 29(ii) a chymryd pob cam i'n galluogi i gydymffurfio'n brydlon ag unrhyw weithdrefnau hysbysu torri diogelwch sydd ganddo; a
  - (h) heb ragfarnu darpariaethau amod 17, yn ein digolledu rhag unrhyw golled neu ddifrod o ganlyniad i unrhyw achos o dorri gennych chi, eich gweithwyr, asiantau neu isgcontractwyr o'ch dyletswyddau o dan amod 29(ii).

## **30. GWRTH-LWGRWOBRWYO**

- (i) Byddwch yn cadarnhau y byddwch chi a'r holl bersonau sy'n gysylltiedig â chi yn unol â'r Cytundeb yn:
  - (a) cydymffurfio â'r holl ddeddfau, rheoliadau, codau a sancsiynau'n ymwneud a gwrth-lwgrwobrywyo a gwrth-dwyll, yn cynnwys Deddf Llwgwrwobrwyo 2010 (y "Gofynion Perthnasol");
  - (b) ni fyddwch yn cymryd rhan mewn unrhyw weithgarwch, ymarfer neu ymddygiad a fyddai'n drosedd o dan adrannau 1,2 neu 6 o Ddeddf Llwgwrwobrwyo 2010 os bydd gweithgarwch, ymarfer neu ymddygiad o'r fath wedi ei gynnal yn y Deyrnas Unedig;
  - (c) peidio â neu, neu beidio gwneud, unrhyw weithred a fyddai'n peri i ni neu'n ein harwain i dorri unrhyw un o'r Gofynion Perthnasol ;

- (d) ein hysbysu'n syth os bydd swyddog cyhoeddus tramor yn dod yn swyddog neu'n weithwyr i chi neu'n cael diddordeb uniongyrchol neu anuniongyrchol ynoch chi (a'ch bod yn gwarantu nad oes gennych unrhyw swyddogion cyhoeddus tramor fel swyddogion, gweithwyr neu berchnogion uniongyrchol neu anuniongyrchol ar adeg y Cytundeb hwn).

**31. CYNLLUN IAITH GYMRAEG**

Byddwch yn cydymffurfio â gofynion Mesur Iaith Gymraeg (Cymru) 2011 i drin y Gymraeg a'r Saesneg yn gyfartal. Os yw darparu'r nwyddau neu'r gwasanaethau yn cynnwys elfen iaith Gymraeg dylech holi am gymorth a chyngor gennym yng nghyswllt pob gwaith cyfieithu i sicrhau fod y ddarpariaeth yn gyson ac o safon.

**32. ILDIO HAWL**

Ni fydd methu â chyflawni unrhyw amod yn y cytundeb ar unrhyw adeg yn effeithio mewn unrhyw ffordd ar yr hawl yn ddiweddarach i fynnu cyflawni'r cytundeb yn llawn, ac ni fydd ildio hawl i dorri unrhyw un o'r amodau yn cael ei ystyried nac yn cael ei gymryd fel hawl i ildio unrhyw dorri amod pellach nac yn ildio'r hawl i'r amod ynddo ei hun.

**33. DILYSRWYDD Y TELERAU**

- (i) Os bydd unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn dod yn annyls, anghyfreithlon, neu'n amhosibl ei roi ar waith, ystyrir ei fod wedi ei addasu i'r graddau gofynnol i'w wneud yn ddilys, cyfreithlon a gorfodadwy. Os nad oes modd ei addasu, ystyrir y bydd y ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth berthnasol wedi ei dileu. Ni fydd unrhyw addasiad neu ddileu darpariaeth neu ran-ddarpariaeth o dan yr amod hwn yn effeithio ar ddilysrwydd a gorfodadwyedd gweddill y Cytundeb hwn.
- (ii) Os bydd unrhyw ddarpariaeth neu ran-ddarpariaeth o'r Cytundeb hwn yn dod yn annyls, anghyfreithlon, neu'n amhosibl ei roi ar waith, bydd y ddau barti'n negodi'n ddiwyll i ddiwygio'r ddarpariaeth honno, fel ei bod, o'i diwygio, yn gyfreithlon, dilys a gorfodadwy, ac, i'r raddfa eithaf bosibl, yn sicrhau canlyniad masnachol bwriedig y ddarpariaeth wreiddiol.

**34. HYSBYSU**

Bydd pob hysbysiad a gohebiaeth sy'n ofynnol i'w danfon atoch oddi wrthym yn y Cytundeb hwn yn ysgrifenedig ac fe'i danfonir drwy ffacsibili, post dosbarth cyntaf neu e-bost (post electronig) i'ch cyfeiriad cofrestredig neu eich prif swyddfa ac os y'i danfonir gennych chi byddwch yn ei ddanfon at ein Swyddog Awdurdodi a thbyr ei fod wedi cyrraedd y parti y cyfeirir ato erbyn y diwrnod busnes trannoeth y postio neu'r trosglwyddo.

**35. DIWYGIO**

Yn ddarostyngedig i amod 15, ni fydd ychwanegu, diwygio neu newid y Telerau hyn yn ein hymrwymo neu'n ffurfio rhan o'r Cytundeb oni bai a hyd nes y'i derbynir yn ysgrifenedig gan ein Swyddog Awdurdodedig.

**36. CYDRADDOLDEB AC AMRYWIAETH**

- (i) Byddwch:
- (a) yn cyflawni eich dyletswyddau o dan y Cytundeb hwn yn unol â:
- (i) phob deddfwriaeth a rheoliadau cydraddoldeb perthnasol (boed mewn cysylltiad â hil, rhyw, ailbennu rhywedd, oed, anabled, tueddfryd rhywiol, crefydd neu gred, beichiogrwydd, mamolaeth neu fel arall): ac
- (ii) unrhyw ofnion a chyfarwyddiadau eraill y gorfodwn yn rhesymol mewn cysylltiad ag unrhyw ddyletswyddau cydraddoldeb a orfodir arnom ar unrhyw adeg o dan gyfraith cydraddoldeb berthnasol; ac yn
- (b) cymryd yr holl gamau angenrheidiol, ac yn ein hysbysu ynghylch y camau a gymerwyd, i atal gwahaniaethau anghyfreithlon y dynodir felly gan unrhyw lys neu dribiwnlys, neu'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol (neu unrhyw sefydliad olynol).

**37. CYFRINACHEDD**

- (i) Bydd pob parti yn:
- (a) cadw pob mater sy'n ymwneud â'r Cytundeb hwn yn gyfrinachol a bydd yn gwneud pob ymdrech resymol i atal ei gynrychiolwyr rhag gwneud unrhyw ddatgeliad i unrhyw berson ynghylch unrhyw fater yn ymwneud â hyn:
- (b) bydd yn ymdrin â phob gwybodaeth Gyfrinachol a berthyn i'r parti arall yn gyfrinachol ac yn ei diogelu gan hynny; ac

- (c) ni fydd yn datgelu i unrhyw berson unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a berthyn i'r parti arall heb ganiatâd ysgrifenedig ymlaen llaw y parti arall, ac eithrio i bersonau ac i'r graddau y bydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni'r Cytundeb hwn ac wedyn dim ond os ydyw'r personau dan sylw yn ymgymryd â chadw cyfrinachedd, neu wedi ymgymryd i gadw cyfrinachedd, ar delerau heb fod yn llai llym na'r hyn a nodir yn amod 37 cyn y datgelir Gwybodaeth Gyfrinachol o'r fath iddynt, ac eithrio lle y caniateir yn benodol yn narpariaeth y Cytundeb ddatgeliad.
- (ii) Ni fydd darpariaethau amod 37 (i) yn berthnasol i unrhyw Wybodaeth Gyfrinachol a dderbynnir gan y naill barti oddi wrth y llall;
  - (a) sydd yn gyhoeddus neu'n mynd i fod yn gyhoeddus (heblaw am drwy dorri amod 37);
  - (b) a fu ym meddiant y parti a'i derbyniodd, yn ddigyfyngiad o ran ei datgelu, cyn ei derbyn oddi wrth y parti a oedd yn ei datgelu;
  - (c) a dderbyniwyd oddi wrth drydydd parti a'i derbyniodd yn gyfreithlon ac nad yw o dan unrhyw ddyletswydd gyfreithiol i gyfyngu'i datgeliad;
  - (d) sydd wedi'i datblygu'n annibynnol heb fynediad i'r Wybodaeth Gyfrinachol; neu
  - (e) y mae'n ofynnol i'w datgelu yn unol â dyletswydd statudol, gyfreithiol neu reoliadol y parti sydd yn ei datgelu (gan gynnwys unrhyw Gais am Wybodaeth) neu gais am wybodaeth gan gorff llywodraethu neu gorff goruchwyllo y mae'r derbynnydd yn destun awdurdodaeth.
- (iii) Lle mae un parti yn methu â chydymffurfio â'r amod 37 hwn, bydd gan y parti arall yr hawl i derfynu'r Cytundeb hwn drwy hysbysiad ysgrifenedig ar unwaith.

### **38. RHYDDID GWYBODAETH**

- (i) Yr ydych yn cydnabod ein bod yn ddarostyngedig i ofynion y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau GA.
- (ii) Bydd yn rhydd i ni eich hysbysu fod Cais am Wybodaeth mewn perthynas â'r Cytundeb hwn wedi'i gyflwyno.
- (iii) Byddwch yn;
  - (a) Rhoi i ni'r holl gymorth a chydweithrediad angenrheidiol fel y gofynnir gennym yn rhesymol i'n galluogi i gydymffurfio â'n dyletswyddau dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau GA.
  - (b) Trosglwyddo ni'r holl Geisiadau am Wybodaeth yn ymwneud â'r Cytundeb hwn a dderbynnir cyn gynted ag y mae'n ymarferol a beth bynnag ymhen 2 Ddiwrnod Gwaith i'w derbyn.
  - (c) Rhoi i ni gopi o'r holl Wybodaeth a berthyn i ni y gofynnir amdani yn y Cais am Wybodaeth sydd yn eich meddiant neu reolaeth ar y ffurf y gofynnir ymhen 5 Diwrnod Gwaith (neu gyfnod arall y gallem ei nodi'n rhesymol) i'n cais am yr Wybodaeth.
  - (d) Ni fyddwch yn ymateb yn uniongyrchol i Gais am Wybodaeth oni bai ein bod wedi awdurdodi hynny'n ysgrifenedig.
- (iv) Rydych yn cydnabod y gallai fod yn angenrheidiol i ni o dan y Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a'r Rheoliadau GA ddatgelu gwybodaeth (yn cynnwys gwybodaeth o sensitifrwydd masnachol) heb ymgynghori neu gael caniatâd gennych. Byddwn yn cymryd camau rhesymol i'ch hysbysu ynghylch Cais am Wybodaeth (yn unol ag adran 45 Cod Ymarfer ar Gyflawni Swyddogaethau Awdurdodau Lleol o ran Rhan 1 o'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth yr Ysgrifennydd Gwladol) i'r graddau y caniateir hynny a'i fod yn rhesymol ymarferol i ni wneud hynny ond (er gwaethaf unrhyw ddarpariaeth arall yn y Cytundeb hwn) byddwn yn gyfrifol am bennu ein disgrisiwn llwyr p'un ai a yw unrhyw wybodaeth o sensitifrwydd masnachol a/neu wybodaeth arall wedi ei heithrio rhag ei datgelu yn unol â'r Ddeddf Rhyddid Gwybodaeth a Rheoliadau GA.

### **39. CYFRAITH LLYWODRAETHU AC AWDURDODAETH**

- (i) Mae'r Cytundeb hwn ac unrhyw anghydfod neu hawliad sy'n deillio ohono neu mewn cysylltiad ag ef neu'r hyn sydd dan sylw neu ffurf (yn cynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol) yn cael ei lywodraethu a'i ddehongli'n unol â chyfraith Cymru a Lloegr.
- (ii) Mae'r ddau barti'n cytuno'n ddi-arlw'n-ôl y bydd gan lysoedd Cymru a Lloegr awdurdodaeth lwyr i setlo unrhyw anghydfod neu hawliad yn deillio o neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn neu'r hyn sydd dan sylw neu ffurf (cynnwys anghydfodau neu hawliadau anghytundebol).

## Atodiad 1

### OS BYDD Y Nwyddau a'r Gwaith yn Cynnwys Gweithrediadau Adeiladu Bydd yr Amodau'n Cael eu Diwygio fel yr Amlinellir Isod

**Cymal 1 (i)** DYLID CYNNWYS y canlynol fel diffiniadau newydd

- Ystyr "**Rheoliadau Adeiladu Dylunio a Rheoli**" yw Rheoliadau Adeiladu (Dylunio a Rheoli) 2015 fel y'i diwygiwyd;
- Ystyr "**Niweidiol**" yw deunyddiau, cyfarpar, nwyddau neu becynnau a dderbynnir yn gyffredinol, neu a amheuir yn gyffredinol, yn y diwydiant adeiladu ar yr amser perthnasol sy'n:
- (i) bygwth iechyd a diogelwch unrhyw un;
  - (ii) bygwth sefydlogrwydd strwythurol, perfformiad neu gyfanrwydd ffisegol y Nwyddau a'r Gwasanaethau neu unrhyw ran neu elfen o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau;
  - (iii) lleihau, neu o bosibl yn lleihau, disgwiliad oes arferol y Nwyddau a'r Gwasanaethau neu unrhyw ran neu elfen o'r Nwyddau a'r Gwasanaethau;
  - (iv) heb fod yn unol ag unrhyw Safon Brydeinig berthnasol, cod ymarfer perthnasol, arfer adeiladu da neu unrhyw dystysgrif agrément berthnasol a gyflwynwyd gan Fwrdd Agrément Prydain; neu a gyflenwyd neu a roddwyd ar y farchnad yn groes i'r deddfau, statudau cyfreithiol, rheoliadau a'r safonau perthnasol.
- Ystyr "**Arfer Diwydiant Da**" yw defnyddio safonau, arferion, crefft, dulliau a gweithdrefnau sy'n cydymffurfio â'r holl ddeddfau, statudau, rheoliadau a safonau perthnasol o bryd i'w gilydd sydd mewn grym neu a ddisgwylir ac arfer y lefel honno o fedr a gofal, diwydrwydd, pwyll a rhagolwg a fyddai i'w ddisgwyl yn rhesymol ac fel arfer gan unigolyn neu gorff medrus a phrofiadol sy'n darparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau (yn cynnwys unrhyw wasanaethau dylunio) o dan yr un amgylchiadau neu rai tebyg.
- Ystyr "**Rhaglen**" yw unrhyw raglen y cytunwyd arni rhyngom yn unol â'r Archeb;
- Ystyr "**Eiddo**" yw'r lleoliad neu'r eiddo lle cyflawnir y Gwasanaethau a/neu'r Nwyddau a gyflenwir;
- Ystyr "**Yswiriant Gofynnol**" yw'r yswiriant sydd wedi'i gynnwys yn yr Archeb;

**Cymal 5(iii)** DYLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 5(iii)(h) i (j) newydd:

#### **5** **CYFLENWI GWASANAETHAU**

- h) ni fyddwch, heb ganiatâd ysgrifenedig gennym, yn gwneud unrhyw newid o bwys i unrhyw ddyluniadau neu fanylebau ar gyfer y Nwyddau a'r Gwasanaethau ar ôl cytuno arnynt;
- i) ni fyddwch yn defnyddio neu'n nodi y defnyddir yn y Nwyddau a'r Gwasanaethau unrhyw beth sy'n Niweidiol
- j) byddwch yn cyflawni'r Gwasanaethau a pharatoi'r holl ddogfennau yr ydych yn gyfrifol amdanynt yn unol ag unrhyw Raglen, neu os na fydd Rhaglen, mewn amser digonol i hwyluso cynnydd effeithiol y Nwyddau a'r Gwasanaethau.

**Cymal 5A** DYLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 5A newydd:

#### **5A** **GWAITH**

- (i) Heb ragfarnu eich dyletswyddau cyffredinol yng nghymal 8, byddwch yn:
  - (a) darparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau'n unol ag Arfer Diwydiant Da;
  - (b) defnyddio staff sydd â phrofiad, sgiliau ac wedi'u hyfforddi'n addas i gyflawni'r tasgau a bennwyd iddynt ac mewn niferoedd digonol i sicrhau bod eich dyletswyddau'n cael eu cyflawni'n unol â'r Cytundeb;
  - (c) cydymffurfio â'r Rheoliadau Adeiladu Dylunio a Rheoli (i'r graddau y maent yn berthnasol).
  - (d) darparu'r holl lafur, peiriannau, cyfarpar, offer a cherbydau a chyfryw eitemau eraill sy'n ofynnol i ddarparu'r Gwasanaethau ac eithrio fel y nodir fel arall yn yr Archeb;
  - (e) cynnal a chwblhau'r Nwyddau a'r Gwasanaethau'n unol ag unrhyw Raglen ac yn unol â'r gofynion yn yr Archeb ac erbyn unrhyw ddyddiad cwblhau a nodwyd yn yr Archeb neu

Gytundeb;

- (ii) Tybir eich bod wedi archwilio'r Eiddo a'ch bod yn fodlon ynglŷn â'i natur a'i gyflwr. Ni fydd gennym unrhyw gyfrifoldeb am gywirdeb, digonolrwydd neu gyflawnder unrhyw wybodaeth a roddwyd i chi neu am unrhyw ddatganiad sydd ynddi boed wedi'i wneud yn esgeulus neu fel arall. Nid yw unrhyw fethiant ar eich rhan i ddarganfod neu ragweld natur, graddau, risg neu gyflwr yn gysylltiedig â'r Eiddo yn rhoi'r hawl i chi gael unrhyw daliad neu amser ychwanegol o dan y Cytundeb hwn.
- (iii) Bydd yr holl beiriannau a chyfarpar a symudir i'r eiddo ar eich cyfrifoldeb eich hun.
- (iv) Byddwch bob amser yn cadw'r Eiddo'n glir heb falurion deunyddiau a sbwriel cyffredinol yn sgil darparu'r Nwyddau a'r Gwasanaethau a byddwch yn cydymffurfio ag unrhyw bolisi gwastraff a ddarparwyd gennym ni o bryd i'w gilydd neu fel sy'n cael ei arddangos yn yr Eiddo.
- (v) Byddwch yn hwyluso ac yn caniatáu i ni archwilio'r holl Nwyddau a/neu Wasanaethau a osodwyd yn yr Eiddo. Byddwn yn eich hysbysu'r ysgrifenedig o'r holl Nwyddau a/neu Wasanaethau y mae angen eu cywiro a byddwch yn gwneud pob ymdrech resymol i'w cywiro mewn da bryd a chyn cwblhau'r Gwasanaethau.
- (vi) Byddwch yn ein hysbysu o'r amser yr ydych yn rhagweld y byddwch yn cwblhau'r Gwasanaethau. Yna byddwn yn archwilio'r Gwasanaethau a gyflawnwyd gennych ac yn cadarnhau'n ysgrifenedig p'un ai a ydym yn ystyried bod y Gwasanaethau wedi'u cwblhau ai peidio. Os nad ydym yn ystyried bod y Gwasanaethau wedi'u cwblhau, byddwn yn cyflwyno hysbysiad ysgrifenedig i chi yn cynnwys yr eitemau hynny sydd heb eu gwneud.
- (vii) Ar ôl cwblhau'r Gwasanaethau byddwch yn symud unrhyw beiriannau a chyfarpar a deunyddiau heb eu defnyddio ac yn clirio'r holl sbwriel yn sgil y Gwasanaethau o'r Eiddo, gan wneud iawn am unrhyw ddifrod a achoswyd i'r Eiddo a byddwch yn gadael yr Eiddo mewn cyflwr taclus a glân.
- (viii) Byddwch yn dychwelyd i'r Eiddo i gywiro unrhyw waith diffygiol a bydd hawl gennym gadw'n ôl werth unrhyw Nwyddau a/neu Wasanaethau diffygiol o'r taliad i chi yn y cyfamser.

#### **Cymal 5B**

DYLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 5B newydd:

##### **5B ESTYNIADAU AMSER**

- (i) Byddwch yn ein hysbysu'r ysgrifenedig os daw'n amlwg na fydd y Nwyddau a'r Gwasanaethau'n cael eu cwblhau erbyn y dyddiad gofynnol o dan y Cytundeb neu a bennwyd yn ddiweddarach o dan y cymal hwn. Os yw'r oedi hwnnw'n digwydd am resymau sydd y tu hwnt i'ch rheolaeth. [yn cynnwys cydymffurfio â'n cyfarwyddiadau nad ydynt yn deillio o'ch diffyg chi] caniateir estyniad amser i chi gwblhau'r Nwyddau a'r Gwasanaethau fel y bo'n rhesymol.

#### **Cymal 18**

DYLID YCHWANEGU Cymal 18 (v) i (vi) newydd:

##### **18 YSWIRIANT**

- (v) Er y gofynion a nodir uchod, byddwch hefyd yn trefnu a chadw unrhyw Yswiriant Gofynnol sydd wedi'i gynnwys yn yr Archeb.
- (vi) Os byddwch yn cyflawni gwasanaethau dylunio byddwch yn cadw polisi indemniti proffesiynol addas gyda therfyn o ddim llai na'r swm a nodir yn yr Archeb (ac os na nodir unrhyw swm, ddim llai na £5m (pum miliwn)).

#### **Cymal 27**

DYLID CYNNWYS y canlynol fel Cymal 27 (x) newydd:

##### **27 DATRYD ANGHYDFOD**

Os bydd y Cytundeb hwn yn 'gytundeb adeiladu' sy'n unol ag adran 104 o Ddeddf Grantiau Tai, Adeiladu ac Adfywio 1996 fel y'i diwygiwyd, bydd hawl gan bob parti i gyfeirio unrhyw anghydfod sy'n codi o dan neu mewn cysylltiad â'r Cytundeb hwn i ddyfarniad o dan y Cynllun ar gyfer Rheoliadau Cytundebau Adeiladu (Cymru a Lloegr) 1998 Rheoliadau (Diwygiad) (Cymru) 2001.